

Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cynllun Iaith Gymraeg
Drafft 2010-2013

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg drafft
hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith
Gymraeg i ymgynghori yn ei gylch ar y
15.03.10

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Datganiad gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd yr Awdurdod Tân

Mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut fydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, ac fe'i paratowyd yn unol â Deddf Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu datblygu ein Gwasanaethau a'u galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau i'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, yn unol ag uchelgeisiau lleol a chenedlaethol dros y tair blynedd nesaf. Mae'n amlinellu ymrwymiad yr Awdurdod i drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, p'un ai eu bod yn unigolion, yn grwpiau neu'n gymunedau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod hefyd bod hawl sylfaenol gan unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith, a bod gennym ni gyfrifoldeb i gydnabod a hwyluso hawl yr unigolyn i wneud hynny.

Ein gweledigaeth i'r Awdurdod yw bod yn sefydliad sydd ymhlith goreuon y byd. Rydym ni eisoes yn gwneud ein gwaith yn dda, ond gwyddwn y medrwn wneud yn well eto ac rydym yn gwbl ymwybodol bod gennym ni rôl bwysig wrth gynnal a meithrin treftadaeth yr iaith Gymraeg. Rydym yn benderfynol o wella'r gwasanaeth dwyieithog a ddarparwn ac rydym yn hyderus y byddwn yn gwella ein gwasanaethau'n sylweddol ac yn cynyddu ein defnydd o'r iaith Gymraeg yn ein busnes beunyddiol yn ystod oes y cynllun hwn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n gweithlu, ein cymunedau a chyrrff sy'n bartneriaid ar draws ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru, i hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg a sicrhau ei bod yn medru ffynnu.

Prif Swyddog Tân
Richard Smith

Cadeirydd yr Awdurdod Tân
Cyng. Eurfyl Evans

Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad	4
2. Ein Strategaeth a'n Polisi	6
3. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	7
4. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau	8
5. Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg	11
6. Hunaniaeth Gorfforaethol	14
7. Swyddogaethau Gweithredol	19
8. Sgiliau Ieithyddol, Strategaeth a Hyfforddiant	21
9. Recriwtio	23
10. Gweinyddu'r Cynllun	23
11. Gweithredu, Monitro a Chydymffurfio	25

1 Cyflwyniad

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu cyfraniad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru tuag at gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn Iaith Pawb, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog (2003) Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol:

- Sicrhau ei bod hi'n bosib i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2011
- Cynyddu'r ganran o bobl sy'n medru siarad Cymraeg i 25.8% erbyn 2011
- Cymell prif ffrydio materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn y sector Llywodraeth Leol

Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn cysylltu â deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol arall, yn cynnwys:

- Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)
- Deddf Hawliau Dynol (1998)
- Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (1998)
- Cymal 32 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (2000)
- Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop (2001)

1.2 Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymestyn dros ryw 4,500 o filltiroedd sgwâr, sydd bron yn ddwy ran o dair o diriogaeth Cymru. Mae amrywiaeth eang o risgiau i'w cael yn ein hardal weithredol, sy'n amrywio o'r diwydiannau petrogemegol yn Aberdaugleddau, Sir Benfro a Llansawel; Castell-nedd, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog megis Abertawe, Port Talbot a Llanelli. Mae yma gymuned amaethyddol eang a nifer o ddiwydiannau ysgafn eraill. Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth ac afonydd lawer, yn rhai o'r risgiau arbenigol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Ers mis Ebrill 2003, mae'r Gwasanaeth wedi'i drefnu yn chwe Ardal Reoli Sirol, sy'n dilyn yr un ffiniau ag ardaloedd Awdurdodau Lleol **Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro a Phowys**. Lleolir Pencadlys y Gwasanaeth yng Nghaerfyrddin, a lleolir y Pencadlys Lleihau Risg yn y Gymuned yn Nhreforys.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys cymysgedd o 57 o orsafoedd llawn amser, criw dydd, system dyletswydd wrth gefn a gwirfoddol. Yn ogystal, mae nifer o staff heb lifrai arbenigol yn gweithio mewn rolau cefnogi, megis adnoddau dynol, cyllid, iechyd a diogelwch, rheoli fflyd ac ystadau, TGCh, datblygu polisi a swyddogaethau gweinyddol cyffredinol.

Nifer y staff ar hyn o bryd, gan gynnwys staff gweithredol a staff cynnal, yw rhyw 1,400.

Caiff GTACGC ei reoli gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

1.3 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) yn cynnwys 25 o Aelodau etholedig, sy'n cael eu henwebu o bob un o'r chwe awdurdod lleol. Ar y cyd, maent yn ffurfio "Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru", sef y prif gorff llunio polisi. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cyfarfod bob chwarter, ac yn gefn i'r Awdurdod mae tri phrif bwyllgor sef Adnoddau, Datblygu Pobl a'r Gyfundrefn ac Adolygu ac Archwilio Perfformiad, sy'n cyfarfod yn gyson i ystyried materion o fewn eu gwahanol feysydd o gyfrifoldeb.

Mae'r ATA yn gweithredu trwy ei bwyllgorau ac aelodau etholedig unigol i:

- Wneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad
- Cytuno ar y gyllideb flynyddol
- Cytuno ar y cynllun lleihau risg
- Monitro ac archwilio perfformiad
- Monitro ac archwilio cyllid a chyllidebau; yn cynnwys gwariant referniw a chyfalaf
- Sicrhau bod y Gwasanaeth yn darparu gwerth am arian
- Sicrhau bod y Gwasanaeth yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu

Mae Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn ymrwymedig i'r gwerthoedd canlynol:

- Didwylledd a thryloywder
- Gonestrwydd a chyfanrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol a chynnaladwyedd

Caiff y Gwasanaeth ei ariannu'n uniongyrchol gan ei chwe Awdurdod Lleol cyfansoddol, ar sail sy'n gymesur â'r boblogaeth.

Mae Prif ddyletswyddau'r Awdurdod Tân ac Achub wedi eu hymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, sef:

- Hyrwyddo Diogelwch Rhag Tân trwy ddarparu gwybodaeth, rhoi cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau; ac anafiadau o ganlyniad i dân
- Rhoi cyngor, pan wneir cais, ar sut i atal tanau a'u cyfyngu rhag lledu mewn adeiladau ac eiddo arall, ac am foddau o ddianc yn achos tân
- Darparu ar gyfer achub bywyd ac eiddo yn achos tân

- Darparu ar gyfer achub a diogelu pobl rhag niwed difrifol yn achos damweiniau ffordd
- Ymateb i argyfyngau neu achlysuron eraill, yn ôl y galw, i ddiogelu pobl, eiddo neu'r amgylchedd

2. Ein Strategaeth a'n Polisi

2.1 Cynllun Strategol ATACGC 2010-2015 - Mae'r sefydliad wedi datblygu Cynllun Strategol ar gyfer 2010-2015, sy'n traethu'r weledigaeth strategol i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, gyda ffocws clir ar wella diogelwch ein cymunedau a'n gweithwyr. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, rydym wedi nodi ein blaenoriaethau fel y medrwn wella ein gwasanaethau yn gyson. Os ydym am barhau i wneud Canolbarth a Gorllewin Cymru yn lle mwy diogel i weithio ac i ymweld ag ef, mae'n hanfodol ein bod yn ymateb i'r cyfleoedd a'r bygythiadau ehangach sy'n effeithio ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaeth mae ein cymunedau'n ei haeddu.

2.2 Ein Gweledigaeth - Ein gweledigaeth yw bod ymhlith sefydliadau gorau'r byd trwy gynnwys, cysylltu ac ysbrydoli pobl i ddarparu gwasanaeth ardderchog.

Ein Cenhadaeth – I greu cymunedau mwy diogel.

Nodau

1. I achub bywydau a diogelu cymunedau.
2. I gael ein parchu gan ein cymunedau a'u bod yn ymddiried ynom.
3. I gael ein gweld fel mwy na gwasanaeth brys.
4. I reoli o fewn y gyllideb.
5. I gyflawni effeithlonrwydd blwyddyn ar ôl blwyddyn.
6. I gydweddu ein hadnoddau i flaenoriaethau.
7. I geisio a defnyddio adnoddau eraill.
8. I reoli ein pobl yn effeithiol.
9. I ddatblygu cynllunio i leihau risg yn llawn.
10. I ddatblygu gwaith partneriaeth effeithiol.
11. I ddatblygu ein gweithlu i fod yn bobl effeithiol ac awdurdodedig.

Beth sy'n bwysig i ni:

Trin pobl gyda:

- Pharch
- Cyfanrwydd
- Ymddiriedaeth
- Gonestrwydd

Byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- Werthfawrogi a gofalu am bobl a diwylliannau
- Darparu gwasanaeth gydag agwedd broffesiynol a balchder
- Cymell creadigrwydd, arloesedd a her
- Cymryd cyfrifoldeb a bod yn atebol

2.3 Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-2011 - Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub yn traethu gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'n disgrifio'r hyn mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddisgwyl oddi wrth yr ATA yn ystod oes y Fframwaith ac mae'n gosod rôl ATA yng nghyd-destun yr agenda sector cyhoeddus ehangach a 'Cymru'n Un'.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn gofyn i bob Awdurdod Tân ac Achub i baratoi Cynllun Lleihau Risg, sy'n gorfod canolbwyntio ar y gymuned a risg gorfforaethol mewn modd cyfannol. Glasbrint ydyw o sut yr ydym yn rheoli risg o fewn ein cymunedau. Mae'n rhaid i amcanion y cynllun lleihau risg i gysylltu ag amcanion y Cynulliad i leihau'r nifer o farwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i dân a gwrthdrawiadau ar y ffordd.

Un o 3 blaenoriaeth pennaf y fframwaith yw bod ATA :

“yn atgyfnerthu eu hagenda cydraddoldeb ac amrywiaeth, i sicrhau bod pob ATA yn gwbl gynrychiadol, ac yn ymwneud yn llwyr â'r cymunedau amrywiol maent yn eu gwasanaethu, gan eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau statudol ac anstatudol”

Yn ogystal, mae'n datgan:

“Mae'n bwysig bod sgiliau dwyieithog yn cael eu hintegreiddio wrth drefnu gweithlu'r ATA, er mwyn sicrhau bod yr ATA yn medru darparu gwasanaethau dwyieithog yn unol â chynlluniau statudol ac i estyn allan i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Dylai'r ATA gau unrhyw fylchau sy'n bodoli o bosib rhwng y lefelau presennol a'r lefelau gofynnol o sgiliau dwyieithog, trwy gynnig hyfforddiant i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg a recriwtio staff sydd â sgiliau dwyieithog i swyddi penodol o fewn yr ATA.

3. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae hyrwyddo'r laith Gymraeg yn rhan allweddol o agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth yr Awdurdod hwn. **Mae ein hymrwymiad at ddarparu Gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn ymestyn tu hwnt i'n Cynllun laith Gymraeg yn unig. Bydd sgiliau dwyieithog yn cael eu hintegreiddio wrth drefnu ein gweithlu, a byddant yn cael eu hymgorffori wrth weithredu canlyniadau ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl.**

Yn ogystal â glynu wrth ganllawiau Cenedlaethol megis Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-2011, byddwn yn dwyn i ystyriaeth fframweithiau Llywodraeth Leol i 'brif ffrydio' cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymwreiddio'r laith Gymraeg yn ein polisïau allweddol, er enghraifft:

Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Llywodraeth Leol Cymru - Pwrpas y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb yw cyflawni gwelliannau o ran cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, darparu gwasanaeth a chanlyniadau polisi sy'n ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Fframwaith cefnogi ydyw i Awdurdodau Lleol, sy'n rhoi cyfarwyddyd ar brif ffrydio'r naw maes cydraddoldeb, sef hil, cenedl, anabledd, yr laith Gymraeg, tueddfryd rhywiol, crefydd a chredo, oedran, pobl gyda dyletswyddau gofalu a phobl trawsrywiol.

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei hasesu yn erbyn fframwaith Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr Awdurdod.

4. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

4.1 Polisïau

Mae'r Awdurdod yn anelu at brif ffrydio'r laith Gymraeg trwy ei hystyried ym mhob agwedd o'n gwaith ac asesu ei heffaith ar ein strategaethau, ein polisïau a'n trefnau.

Byddwn yn cynnwys yr laith Gymraeg yn ein prosesau cynllunio corfforaethol, trwy gynnwys yr laith Gymraeg fel goblygiad ar glawr blaen pob adroddiad corfforaethol. Mae pob adroddiad a gyflwynir i'n Hawdurdod Tân ac Achub, y Bwrdd Polisi a grwpiau Darparu / Gwella Gwasanaeth, yn cynnwys tudalen flaen, sy'n rhoi crynodeb o'r adroddiad, ei ganlyniadau tebygol ac unrhyw ardystiadau sydd eu hangen i'r darllenyddion. Mae'r dudalen yn cynnwys nifer o oblygiadau posib i'w hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch cynnwys yr adroddiad, ac mae'r laith Gymraeg yn un ohonynt. Mae hyn yn sicrhau bod yr effaith bosib mewn perthynas â'r laith Gymraeg yn cael ei ystyried wrth gyflwyno cynigion busnes.

Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn sicrhau bod ei broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn monitro polisïau, strategaethau neu gynlluniau newydd, neu newidiadau i'r rhai presennol, am eu heffaith ar ymrwymiad yr Awdurdod at gydraddoldeb iaith ac mae'n darparu llwybr i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â chynllun yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o'r cynllun a chyfrifoldebau'r sefydliad yn unol â'r Ddeddf, a bod y mesurau sy'n gynwysedig yn y cynllun yn cael eu cymhwysu i bolisïau a mentrau newydd pan eu bod yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'n gyfrifoldeb ar Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Corfforaethol, Penaethiaid Adran a Rheolwyr Sirol i sicrhau bod staff sy'n ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o gynnwys y paragraffau uchod a'r nodau a ddisgrifir ynddynt, ac y cymerir ystyriaeth lawn ohonynt wrth gynllunio mentrau a pholisïau newydd.

Dylid ystyried yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal mor gynnar â phosib yn y broses o gynllunio polisïau newydd. Dylid prif ffrydio'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg gydol y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau newydd a gwasanaethau sy'n bod eisoes.

4.2 Darparu Gwasanaethau

Wrth gyflwyno ei wasanaethau i'r cyhoedd, mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau y gall y cyhoedd nodi eu dewis iaith wrth ymdrin â gweithwyr y Gwasanaeth.

Bydd yn gwneud hyn trwy:

- sicrhau delwedd ddwyieithog gadarn mewn derbynfydd cyhoeddus
- bod yn flaenweithgar wrth gynghori'r cyhoedd
- sicrhau bod staff Cymraeg eu hiaith ar gael i helpu eraill ble bod angen neu ble y gofynnir am hynny
- mabwysiadu trefnau a systemau, a amlinellir yn y Cynllun, sy'n hwyluso darparu'r gwasanaeth yn yr iaith a ddewiswyd gan ddefnyddiwr y gwasanaeth
- cyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol
- annog personél i ddysgu Cymraeg

Bydd y Cyfarwyddwyr yn gwbl ymwybodol o ofynion y Cynllun, a bydd yn ddyletswydd arnynt i sicrhau bod pob un o'r gofynion yn cael eu rhoi ar waith yn eu hadrannau.

Ble nad yw'r gwasanaethau ar gael yn ddiymdroi trwy gyfrwng y Gymraeg, darperir ar eu cyfer yn yr amserlen ar gyfer gweithredu a gaiff ei llunio yn ôl yr anghenion sy'n flaenoriaeth a'r galw.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i annog a chefnogi defnydd o'r Gymraeg yn ei berthynas â chyrrff cyhoeddus eraill, er enghraifft wrth gyflwyno addysg ar ddiogelwch rhag tân i ysgolion ac wrth gynnal cyfarfodydd ymgynghori â chynrychiolwyr cynghorau cymuned, ac wrth weithio mewn partneriaeth. Mae nifer o weithwyr addysg cymunedol ar gael i ddarparu addysg diogelwch rhag tân trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion lleol a gweithgareddau eraill sydd wedi eu lleoli yn y gymuned.

4.3 Trefniadau Goruchwylio gyda Thrydydd Parti

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo rôl bwysig i'w chwarae wrth wella'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog trwy ein cysylltiad â chyflenwyr trydydd parti. Bydd y gweithgareddau canlynol yn cynorthwyo'r Awdurdod i hyrwyddo cydraddoldeb iaith trwy ei berthynas gydag asiantaethau eraill.

4.3.1 Caffael

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod cyflenwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd, yn llwyr ddeall ac yn llwyr weithredu, ble bynnag y bod hynny'n bosib, ymrwymadau'r Cynllun hwn wrth weithredu ar ran yr Awdurdod. Bydd yr agweddau priodol o'r Cynllun yn cael eu hymgorffori mewn dogfennau tendro, contractau, cytundebau ac amodau.

Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gyflenwyr trydydd parti'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau'n unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod ac am fonitro cydymffurfiaeth.

Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio at ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar "Gaffael" pan fydd yn datblygu cyngor a chanllawiau ar gydraddoldeb iaith wrth gaffael i'r staff perthnasol, a bydd yn ymgymryd â rhaglen dreigl o adolygiadau enghreifftiol ar gyfer cyflenwyr trydydd parti, i fonitro cydymffurfiaeth â'r cynllun.

Ble bod hynny'n berthnasol, bydd darpariaeth gwasanaeth dwyieithog yn cael ei nodi mewn tendrau am gytundebau. Mae'n bosib y bydd yna gontractau neu drefniadau am gyfnod byr neu o natur benodol ble nad yw'n ymarferol i ofyn am gydymffurfiaeth llwyr â chynllun yr Awdurdod. Yn yr amgylchiadau yma, bydd agweddau perthnasol o'r cynllun yn cael eu cynnwys.

4.3.2 Partneriaethau

Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, ac mae'n gweithio ar sawl lefel sy'n amrywio o'r ffocws strategol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

- Pan fod yr Awdurdod yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fod yr Awdurdod yn ymuno â phartneriaeth y mae corff gwasanaeth cyhoeddus arall yn ei arwain, bydd mewnbyn yr Awdurdod i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y corff hwnnw, a bydd yr Awdurdod yn cymell y partion eraill i gydymffurfio.
- Pan fod yr Awdurdod yn bartner mewn consortiwm, bydd yn cymell y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd yr Awdurdod yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fod yr Awdurdod yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu'n ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd yr Awdurdod yn cynnig cyngor a chymorth i'r partion eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.
- Bydd yr Awdurdod yn paratoi canllawiau i swyddogion sy'n ymuno mewn gwaith partneriaeth, sy'n egluro cyfrifoldebau'r Awdurdod yn unol â'r Cynllun Iaith ac yn nodi sut y dylai swyddogion fynd ati i briodoli gofynion y Cynllun Iaith i waith y bartneriaeth.

5. Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon lawn cyn uchel trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob lleoliad daearyddol mae'n eu gwasanaethu, a bydd yn hysbysu'r cyhoedd o'r bwriad hwn mewn dogfennau ble gwneuthur datganiadau ar weithredu cyfleoedd cyfartal a darparu gwasanaeth.

5.1 Gohebiaeth

Mae croeso i'r cyhoedd i ymdrin â'r Awdurdod, yn ysgrifenedig, trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Pan fod llythyrau safonol yn cael eu hanfon i'r cyhoedd, byddant yn cael eu hanfon yn ddwyieithog a byddant yn cynnwys datganiad safonol, yn datgan y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg:

'Mae croeso i chi ohebu yn y Gymraeg neu yn Saesneg / You are welcome to correspond in English or Welsh.'

Bydd llythyrau ac e-byst a dderbynnir gan yr Awdurdod yn y Gymraeg yn cael eu cydnabod a'u hateb yn y Gymraeg.

5.2. Cyfathrebu dros y ffôn

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i groesawu galwadau ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'r holl swyddfeydd/gorsafoedd, a bydd yn sicrhau:

- bod gan yr Awdurdod rif ffôn sengl ar gyfer cyfathrebu dros y ffôn a bod y gweithredyddion ffôn yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog.
- y bydd pob swydd derbynnydd ym Mhencadlys y Gwasanaeth ac ym Mhencadlys Ardal Reoli Sirol Abertawe ac yn y Pencadlys Lleihau Risg yn y Gymuned yn swyddi ble mae'r Gymraeg yn hanfodol.
- bydd pob derbynnydd ym mhob un o'r canolfannau gweinyddol a'r Ardaloedd Rheoli yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar y darpariaethau sy'n gynwysedig yn y cynllun.
- yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol, bydd y cyfarchiad ar y ffôn yn ddwyieithog, a darperir hyfforddiant, ynghyd â hyfforddiant gloywi, i dderbynnyddion di-gymraeg.
- os na all y derbynnydd siarad Cymraeg, bod pobl sy'n dymuno parhau â'r sgwrs yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i staff Cymraeg eu hiaith.
- mae cyfeirlyfr mewnlol o staff sy'n medru siarad Cymraeg ar gael ar y System Gwybodaeth Fusnes at ddefnydd personél y Gwasanaeth.
- ble nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, cymerir enw a rhif ffôn y galwr a dywedir wrtho y bydd aelod Cymraeg o'r staff yn dychwelyd ei alwad cyn pen hanner awr.
- Mae staff sydd â rhif ffôn uniongyrchol yn cael eu cymell i ateb yn ddwyieithog, i hyrwyddo gwell dewis o iaith. Bydd ffurf a chynnwys y cyfarchiad yn dibynnu ar allu'r gweithiwr i siarad Cymraeg.
- Bydd negeseuon ar beiriannau ateb ar estyniadau swyddfa a ffonau symudol yn cael eu recordio'n ddwyieithog.

5.3 Wyneb yn Wyneb

Bydd gwasanaeth derbynfa dwyieithog ar gael i ymwelwyr a galwyr dros y ffôn ym Mhencadlys y Gwasanaeth, yn Ardal Reoli Sirol Abertawe ac yn y Pencadlys Lleihau Risg yn y Gymuned. Felly, bydd y gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol i'r swyddi rheng flaen yma.

Bydd yr holl staff derbynfa arall yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn gyson. Yn ei dderbynfeydd, bydd yr Awdurdod yn cynnal delwedd sy'n mynd ati'n weithgar i annog defnydd o'r iaith Gymraeg trwy fabwysiadu'r cynllun "Iaith Gwaith" ym mhob lleoliad.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod yr holl dderbynfeydd cyhoeddus yn cyfleu delwedd ddwyieithog gadarnhaol a chroesawgar.

5.4 Gwefan

Bydd yr holl ddeunydd sy'n cael ei baratoi gan yr Awdurdod ac sydd ar gael i'r cyhoedd ar y wefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ystod oes y cynllun hwn. Bydd defnyddwyr yn cael cynnig dewis o iaith ar yr hafan, a bydd yr holl ddeunydd dilynol ar gael yn dewis iaith y defnyddiwr.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal mewn perthynas â'i systemau e-lywodraeth, a bydd yn mabwysiadu "Safonau a Chanllawiau Meddalwedd Dwyieithog" Bwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn datblygu'r systemau dwyieithog priodol.

5.5 Cyfarfodydd Cyhoeddus

Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus, mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau bod croeso i'r rhai sy'n bresennol i gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd hysbysiadau sy'n cyhoeddi cyfarfodydd cyhoeddus yn rhai dwyieithog a byddant yn ei gwneud hi'n glir fod croeso i'r cyhoedd i gyfrannu yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i roi gwybod i'r Awdurdod ymlaen llaw pa un yw eu dewis iaith, fel y gellir gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd yr Awdurdod yn ceisio'i orau i alluogi'r trefniadau hyn i gael eu gwneud heb fawr o rybudd, ond gorau oll os gellir rhoi o leiaf deg diwrnod gwaith o rybudd.

Dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus ystyried darparu cyfleusterau cyfieithu wrth archebu adnoddau eraill ar gyfer y cyfarfod, gan ddwyn i ystyriaeth yr hyn sydd i'w drafod, lleoliad y cyfarfod a'r bobl sy'n debygol o fynychu, yn ogystal â mynegiadau o flaen llaw o'r ieithoedd a fydd yn cael eu defnyddio.

Yn ogystal, fe ddylent asesu'r angen i gael staff sy'n siarad Cymraeg i fynychu a pha rôl y byddant yn ei chwarae yn y gweithrediadau, amlinelliad o rôl y Cadeirydd a'r cyfieithydd wrth hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a defnydd o'r offer cyfieithu.

Pan fod aelodau o'r cyhoedd yn nodi eu bod yn dymuno cyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y cyflwyniadau'n ddwyieithog, a chymerir camau i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael statws cyfartal yn y cyfarfod.

5.7 Ymdrin â'r Cyhoedd mewn Ffyrded Eraill

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau y bydd yn gwireddu'r egwyddor o gydraddoldeb a nodir yn y Ddeddf ac mewn perthynas â'i holl gyfarfodydd gyda'r cyhoedd.

Bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r cyhoedd am eu hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio cyn unrhyw gyfarfod, er enghraifft, Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC), digwyddiadau Criw Craff, a thrwy hynny sicrhau y gellir gwneud darpariaeth briodol.

Wrth drefnu cyfarfod gydag aelod o'r cyhoedd, holir beth yw dewis iaith yr aelod dan sylw. Os mai'r Gymraeg yw'r dewis iaith, bydd yr Awdurdod yn sicrhau mai swyddog Cymraeg fydd yn cyfarfod â'r cyhoedd.

Os bydd y cyfarfod yn digwydd heb ddigon o amser i drefnu i swyddog Cymraeg i fod yn bresennol, yna bydd y cleient yn cael dewis:

- Trefnu cyfarfod arall gyda Swyddog Cymraeg
- Cael trydydd parti'n bresennol sy'n siarad Cymraeg
- Cynnal y drafodaeth yn Saesneg

Yr un fydd yr egwyddorion a ddilyniwr wrth gynnal cyfarfodydd mewn adeiladau allanol a chyfarfodydd a gynhelir yng nghartref aelod o'r cyhoedd.

Bydd staff sy'n medru siarad Cymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny'n glir i aelodau o'r cyhoedd trwy gyfranogi mewn Cynllun Iaith Gwaith, a fydd yn nodi'r ffaith eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

5.8 Gwasanaethau Cyfieithu

Gyda golwg ar wasanaethau cyfieithu, bydd yr Awdurdod yn gwneud trefniadau gyda chyfieithwyr allanol, a bydd disgwyl iddynt i fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, neu'n gweithio tuag at fod yn aelodau.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod meddalwedd, cyfeirlyfrau a hyfforddiant ar gael i staff sy'n gweithio'n ddwyieithog.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio gydag Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i sefydlu terminoleg Tân ac Achub cyson yn y Gymraeg.

6. Hunaniaeth Gorfforaethol

6.1 Delwedd Gorfforaethol

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod ganddo logo corfforaethol cwbl ddwyieithog a bod ei offer ysgrifennu (yn cynnwys papur pennawd, cardiau busnes, bathodynau adnabod, cyhoeddiadau ac unrhyw ddeunydd hyrwyddol arall) yn cynnwys gwybodaeth safonol ddwyieithog ble y bydd maint, ansawdd, darllenadwyedd ac amlygrwydd y testun yn parchu'r egwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal.

Ble bod yr Awdurdod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o farchnata, hysbysebu, hyrwyddo neu roi cyhoeddusrwydd i'w swyddogaethau, ei wasanaethau a'i weithgareddau i'r cyhoedd, ei arfer safonol fydd gwneud hynny'n ddwyieithog.

6.2 Cyhoeddiadau

Bydd pob deunydd darllen, megis dogfennau, pamffledi, llyfrynau, tystysgrifau, poster a ffurflenni (yn cynnwys nodiadau esboniadol a chyfarwyddiadau) yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Bydd cyhoeddiadau penodol a anelir at y cyhoedd, er enghraifft y Cynllun Lleihau Risg, yr Adroddiad Blynyddol, gwybodaeth Gofal y Cwsmer, gweithdrefnau Gwneud Cwyn, Gwahoddiadau, Poster, Derbyneb, Anfonebau, Swydd Ddisgrifiadau, Manylebau Person yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, gyda rhagdybiaeth o blaid dogfennau dwyieithog unigol yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Bydd unrhyw beth sy'n cael ei baratoi gan yr Awdurdod a anelir at drigolion, busnesau, ymwelwyr i ardal y Gwasanaeth neu ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol, yn cael eu hystyried eu bod yn disgyn o dan y cylch gwaith hwn.

Bydd disgwyl i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr, cyhoeddwr a chyfieithwyr i weithio o fewn y canllawiau a baratowyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer dylunio dwyieithog, ynghyd â'r canllawiau a baratowyd gan Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer ymdrin â hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod.

Cyngor - Bwriedir yr adran ganlynol fel cyngor ar sut i baratoi dogfennau dwyieithog mewn fformat priodol. Dylid darllen y canllawiau yma ar y cyd gyda "Chanllaw Steil Corfforaethol" yr Awdurdod. Mae dogfennau'n rhannu i 3 categori, sef:

- A. y rhai hynny y dylid eu paratoi'n gwbl ddwyieithog
- B. y rhai hynny a ddylai gynnwys fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân
- C. y rhai hynny a ddylid eu paratoi yn Saesneg yn unig

Categori A – Cwbl Ddwyieithog

Y ffordd safonol o baratoi dogfennau cwbl ddwyieithog yw cael yr ieithoedd cefn wrth gefn mewn steil wyneb i waered neu droi drosodd. Mae rhai dogfennau proffil uchel yn cael eu paratoi gyda'r ieithoedd ochr yn ochr i'w gilydd. Mae'r holl bosteri, pwy bynnag yw'r gynulleidfa darged, yn cael eu paratoi'n gwbl ddwyieithog. Gyda'r ddwy iaith ar yr un ochr i'r dudalen.

Mae unrhyw eitemau sy'n mynd i'r wasg e.e. hysbysebion a rhybuddion, yn cael eu dylunio ochr yn ochr i'w gilydd fel arfer.

Mae'n rhaid i bob dogfen ddwyieithog i ddatgan y canlynol:

"This publication is available in other languages or formats on request"

"Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ieithoedd neu ar fformatau eraill pan wneir cais"

Categori B – Fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân

Mewn achosion ble mae dogfennau neu ffurflenni'n swmpus iawn (e.e. gyda nifer fawr o dudalennau) neu'n gymhleth iawn, mae'n rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân yn gyfochrog, ac mae'n rhaid iddynt fod o'r un ansawdd. Dylai'r ddau fersiwn gael yr un amlygrwydd wrth eu hyrwyddo a'u harddangos, a dylid eu dosbarthu gyda'i gilydd yn y post. Bwriedir y bydd ffurflenni dwyieithog yn cael eu cyflwyno pan fydd y cyflenwadau presennol o ffurflenni uniaith wedi gorffen.

Hefyd, os gwneir newid, mae'n rhaid bod y ddau fersiwn yn costio'r un faint ac ni ellir codi tâl yn fwy am baratoi cyhoeddiad yn y Gymraeg neu unrhyw fformat amgen arall. Dylid cytuno ar leiafswm argraffu yn Gymraeg o flaen llaw, ac argymhellir na ddylai fod yn llai nag 20% o'r cyfanswm. Mewn rhai amgylchiadau dylid cynhyrchu niferoedd yn fwy (h.y. os oes 100 yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg, yna dylid cynhyrchu o leiaf 25 yn ychwanegol yn y Gymraeg).

Mae'n rhaid i bob dogfen ar wahân i nodi ei bod ar gael mewn iaith neu fformat arall, ac isod rhoddir y cymalau a argymhellir i'w cynnwys yn y cyhoeddiadau:

Ar gyfer y fersiwn Saesneg yn unig:

This publication is available in Welsh and other languages or formats on request

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill pan wneir cais

Ar gyfer y fersiwn Cymraeg yn unig:

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill pan wneir cais

This publication is available in English and other languages or formats on request

Categori C – Saesneg yn unig

Mae'r categori hwn yn cynnwys dogfennau mewnol yn bennaf, megis adroddiadau, dogfennau drafft a chyfathrebu mewnol. Nid yw hyn yn gwahardd y Gymraeg rhag cael ei defnyddio'n fewnol, na'n gwahardd unrhyw ddogfennau mewnol rhag cael eu cyfieithu, ond does dim rhaid gwneud hyn fel gydag eitemau Categori A neu B. Fodd bynnag, bydd eitemau Categori C yn cael eu cyfieithu, os gwneir cais gan y cyhoedd i eitem i fod ar gael yn y Gymraeg.

Os nad yw dewis iaith y derbynnydd bwriadus yn hysbys, bydd fersiwn dwyieithog yn cael ei anfon, neu bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu hanfon ar yr un pryd.

Mewn achosion unigol, bydd Cyfarwyddwyr yr Awdurdod yn penderfynu p'un ai y dylai dogfen gael ei chyhoeddi'n ddwyieithog neu'n uniaith, gan ddwyn i ystyriaeth maint a natur y cyhoeddiad, maint a natur y gynulleidfa darged, dosbarthu, costau, y galw tebygol, amseru a gwerth am arian. Os nad yw'n ymarferol i baratoi fersiwn cwbl ddwyieithog, bydd rhannau priodol o'r cyhoeddiadau yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog pryd bynnag y bod hynny'n bosib.

6.2 Ffurflenni

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

- y bydd yr holl ffurflenni a deunydd esboniadol, megis Taflenni Gwybodaeth am Ddiogelwch Rhag Tân, ar gael ac yn cael eu cynnig i bawb yn Gymraeg a Saesneg fel dogfennau ar wahân neu'n ddwyieithog.
- ble bod ffurflenni Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, y byddant yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd, y byddant yr un mor hwylus i'w cael yn yr holl fannau dosbarthu ac y byddant yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd trwy'r post neu dros y cownter. Bydd y dogfennau'n cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- bod yr holl ddeunyddiau eraill a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd hefyd yn ymddangos yn ddwyieithog, a byddant yn cynnwys eitemau fel gwahoddiadau, poster, sicciau, trwyddedau, cardiau, newyddion, amserlenni, derbynebaw, anfonebau a mapiau.
- bydd yr Awdurdod yn llunio polisi o ddefnyddio Cymraeg pob dydd ar ffurflenni

6.3 Arwyddion

Mae'r Awdurdod Tân yn ymrwymedig i sicrhau y bydd yr holl arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd newydd ac wedi eu hadnewyddu y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt yn ddwyieithog, neu ble y darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, eu bod yn gyfartal o ran maint, ansawdd, darllenadwyedd ac amlygrwydd y testun.

Mae'r Awdurdod Tân yn ymrwymedig i sicrhau:

Y bydd yr Iaith Gymraeg yn ymddangos yn uchaf ac i'r chwith ar yr holl arwyddion dwyieithog.

6.4 Cynllun ar Gerbydau

Mae'r cynllun ar gerbydau'r Awdurdod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos uwchlaw neu i'r chwith o'r testun Saesneg. Pan fod y term 'FIRE' yn cael ei osod ar gerbydau/peiriannau newydd, fe fydd yn ymddangos yn ddwyieithog hefyd, ar yr amod fod hyn yn gyson â darpariaethau Rheoliadau Traffig Ffyrdd priodol.

6.5 Y Wasg a'r Cyfryngau

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod datganiadau swyddogol a hysbysiadau i'r cyfryngau yn rhan hanfodol o ddelwedd gyhoeddus y Gwasanaeth Tân ac Achub, a'i fod yn ddull allweddol o gyfathrebu â'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod felly'n ymrwymedig i sicrhau bod datganiadau a hysbysiadau i'r wasg a'r cyfryngau'n ddwyieithog. Fodd bynnag, ble bod materion brys yn codi a allai effeithio ar ddiogelwch yn cyhoedd, mae'n bosib y bydd angen cyhoeddi datganiadau yn Saesneg yn unig yn y lle cyntaf, tra bod y cyfieithiad Cymraeg yn cael ei baratoi gan ein cyfieithwyr.

Bydd yr holl gyfweiliadau a roddir i'r wasg a'r cyfryngau Cymraeg yn cael eu rhoi gan staff sy'n siarad Cymraeg.

Yn ystod oes y cynllun hwn, bydd yr Awdurdod yn sicrhau wrth baratoi deunydd cyhoeddusrwydd (gan gynnwys fideos, tapiau neu ddeunyddiau a gynhyrchir i hyrwyddo, hysbysebu neu egluro cynlluniau, polisïau, gweithdrefnau, deddfwriaeth neu wasanaethau arall y Gwasanaeth Tân ac Achub), arddangosfeydd, ymgyrchoedd marchnata a mecanweithiau ymateb, y bydd y deunydd arddangos yn gwbl ddwyieithog. Ble bod deunydd o'r fath yn cael ei anelu at y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, fe fydd yn cael ei baratoi'n ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig.

Bydd ymgyrchoedd hysbysebu neu hyrwyddol sy'n cael eu paratoi gan yr Awdurdod, trwy unrhyw gyfrwng cyhoeddus ac a anelir at y cyhoedd yng Nghymru, yn ddwyieithog.

6.6 Ymgynghori

Bydd pob ymgynghoriad cyhoeddus a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu cynnal yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a'r Saesneg, yn ôl dewis iaith y sawl yr ymgynghorir af ef/nhw.

Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â budd-ddeiliaid allanol e.e. trigolion, defnyddwyr gwasanaeth, busnesau, mudiadau gwirfoddol, cyrff sy'n bartneriaid, Cyngorau Tref a Chymuned.

Ble nad yw'r dewis iaith yn hysbys, bydd holiaduron, dogfennau ymgynghori a gwybodaeth berthynol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, a byddant yr un mor hwylus i'r rhai hynny a ymgynghorir â nhw i gael gafael ynddynt.

Hefyd, bydd budd-ddeiliaid yn cael y dewis o gyfranogi mewn cyfweiliadau, grwpiau trafod neu fforymau rhyngweithiol yn Saesneg neu'n Gymraeg.

Wrth gynllunio ymgynghori, ystyrir a ddylid ymgynghori â siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr Saesneg fel grŵp targed penodol.

6.7 Hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus, Hysbysebu Recriwtio Staff

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i:

- sicrhau bod yr hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ac yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, darllenadwyedd ac amlygrwydd. Bydd y Gymraeg yn ymddangos yn uchaf ac i'r chwith.
- Ble bernir bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd neilltuol, bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer y swydd honno'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig fel arfer, gyda throednodyn yn Saesneg yn esbonio pwrpas yr hysbyseb. Bydd y fath hysbysebion yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, darllenadwyedd ac amlygrwydd i hysbysebion o'r fath yn Saesneg.
- Bydd yr Awdurdod yn ystyried hysbysebu swyddi ble mae'r Gymraeg yn hanfodol yn y cyfryngau Cymraeg, megis Y Cymro a Golwg.
- Os na fydd pobl sy'n meddu ar y cymwysterau priodol wedi ymgeisio, mae'n bosib bydd y swydd dan sylw yn cael ei hail-hysbysebu yn ddwyieithog, gan nodi y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus i ddysgu Cymraeg o fewn amserlen y cytunwyd arni.
- mewn swyddi ble mae'r Gymraeg yn ddymunol, bydd yr hysbyseb yn ymddangos yn ddwyieithog yn y wasg Saesneg yng Nghymru.
- Bydd swyddi a hysbysebir mewn cylchgronau a chyfnodolion a gyhoeddir y tu allan i Gymru, ond sy'n cael eu dosbarthu ledled y Deyrnas Unedig, yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog.

7. Swyddogaethau Gweithredol

7.1 Ymateb Brys y Gwasanaeth Tân ac Achub

Yn yr holl swyddogaethau gweithredol brys, ble mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau brys i'r cymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, Saesneg fydd yr iaith swyddogol.

Mae natur gwaith diffoddwr tân, gyda'r peryglon sydd ynghlwm wrth hynny i'w ddiogelwch ei hun a'i gyfrifoldeb am ddiogelwch eraill, yn golygu bod yn rhaid wrth ddisgyblaeth gryn dipyn yn fwy llym nag sydd ei hangen yn y rhan fwyaf o alwedigaethau. Mae'n hanfodol bwysig bod un iaith yn cael ei defnyddio i roi cyfarwyddiadau clir, cryno a diamwys, er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol i'r cyhoedd. Mae diogelwch personél a'r cyhoedd o'r pwys mwyaf ac mae'r Awdurdod o'r farn bod y polisi iaith a nodir uchod, wrth ymdrechu i wireddu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn, yn briodol yn yr amgylchiadau hyn.

Yn hanesyddol felly, ni fu llawer o reidrwydd i ystyried gallu ieithyddol y criwiau gweithredol. Serch hynny, ers i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ddod i rym, ychwanegwyd at rôl y diffoddwr tân i gynnwys gwaith cymunedol ar ddiogelwch rhag tân, fel darpariaeth statudol. Mae'n ofynnol bellach i ddiffoddwyr tân i gyflwyno diogelwch yn y gymuned i'r gymuned, ac mae'n hanfodol felly bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflwyno yn newis iaith y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn ystyried gallu ieithyddol y criwiau yn awr pan benodir diffoddwyr tân newydd i swyddi, er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol.

7.2 Gwasanaethau'r Ganolfan Reoli

Yng Nghanolfan Reoli Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, byddwn yn gwneud pob ymdrech i ofalu bod 50% o'r staff ar bob gwylfa'n ddwyieithog.

Mae ymgyfarwyddo ag enwau lleoedd ledled y Gwasanaeth yn rhan o raglen hyfforddi gynhwysfawr a roddir i staff y Ganolfan Reoli.

7.3 Diogelwch Tân Deddfwriaethol

Darperir cyngor ar Ddiogelwch Tân Deddfwriaethol gan gnewyllyn o swyddogion diogelwch rhag tân arbenigol a leolir yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol, sy'n darparu gwasanaeth cyngor ar ddiogelwch rhag tân cynhwysfawr, yn enwedig mewn perthynas â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (diogelwch tân) 2005.

Bydd y Swyddogion Diogelwch Tân Deddfwriaethol yn gwireddu'r egwyddor o gydraddoldeb trwy sicrhau:

- Bydd Tafleuni Gwybodaeth am Ddiogelwch Rhag Tân ar gael ac yn cael eu cynnig i bawb yn Gymraeg a Saesneg, fel dogfennau ar wahân neu'n ddwyieithog.
- Bydd gwasanaeth cyngor ar Ddiogelwch Rhag Tân ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd ymweliadau safle at ddibenion archwilio ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg.

7.4 Lleihau Risg yn y Gymuned

Yn yr un modd, darperir cyngor diogelwch yn y gymuned gan gnewyllyn o swyddogion diogelwch yn y gymuned arbenigol a phersonél gweithredol, a leolir yn yr Ardaloedd Rheoli Sirol a'r Pencadlys Lleihau Risg yn y Gymuned, sy'n darparu gwasanaeth diogelwch yn y gymuned cynhwysfawr. Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn rhoi dyletswydd statudol i bob Awdurdod Tân ac Achub i hyrwyddo diogelwch yn y gymuned. Bydd swyddogion diogelwch yn y gymuned yn rhoi'r egwyddor o gydraddoldeb ar waith trwy sicrhau, er enghraifft, bod yr holl wybodaeth hysbysebu diogelwch rhag tân a deunydd addysgol yn cael eu paratoi'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd yr holl wasanaethau a gynigir i'r cyhoedd, megis Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC), y Criw Craff, Cynllun FACE a'r Diffoddwyr Tân Ifanc, yn cael eu cynnig i'r derbynyddion yn eu dewis iaith.

8. Sgiliau Ieithyddol, Strategaeth a Hyfforddiant

8.1 Staffio

Er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac o ansawdd i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, bydd yr Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau cyflenwad digonol o staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

- y bydd gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol, er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys natur ieithyddol ardal leol benodol.
- y bydd aelodau o'r cyhoedd sydd am gysylltu â staff uwch yn medru cynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- mae'r gweithleoedd yn cynnwys 57 o orsafoedd, Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ardal Reoli Sirol Abertawe a'r Pencadlys Lleihau Risg yn y

Gymuned, Pencadlys Ceredigion, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Penfro, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Powys, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Castell-nedd a Phort Talbot, Pencadlys Ardal Reoli Sirol Gaerfyrddin.

- y rhoddir ystyriaeth barhaus tymor hir i'r modd y bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn sicrhau bod gwasanaeth llawn i gael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg, waeth beth fo'r gwahaniaethau ieithyddol yn y gwahanol weithleoedd.
- y bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn archwilio ei strwythurau staffio ac yn canfod y swyddi ble mae sgiliau iaith Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol, ac y bydd yn ffurfio swydd ddisgrifiadau a chynlluniau gwasanaeth yn unol â hynny.
- y bydd disgrifiadau tîm priodol, swydd ddisgrifiadau a manylebau person yn cael eu paratoi, a fydd yn amlygu'r gofynion ym mhob gweithle, fel yr amlinellwyd yn "Strategaeth Sgiliau Ieithyddol 2010-2013".
- y bydd asesu anghenion iaith swyddi, i sicrhau bod Adrannau ac Ardaloedd Rheoli yn medru darparu gwasanaethau'n unol â'r cynllun hwn, yn gyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol.
- y bydd yr archwiliad o'r sgiliau ieithyddol yn cael ei adolygu i bennu nifer ac adran/gorsaf y siaradwyr Cymraeg a'r rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, ynghyd â medruswydd a hyder y staff o ran siarad ac ysgrifennu Cymraeg.
- y bydd yn annog ac yn rhoi cefnogaeth frwd i'r staff i ddysgu Cymraeg, a bydd yn rhoi'r aelodau hynny o staff sy'n dysgu Cymraeg mewn swyddi ble y bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ble bynnag y bod hynny'n ymarferol.
- y bydd pobl aelod o bersonél sy'n gyfrifol am recriwtio yn glynu wrth ofynion "Strategaeth Sgiliau Ieithyddol 2010-2013"
- y cymerir camau i ddatrys y broblem, os bydd nifer y staff dwyieithog yn lleihau ble mae angen staff dwyieithog, i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â pholisi iaith yr Awdurdod.

8.2 Hyfforddiant

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod anghenion gan yr holl gymunedau, yn enwedig gan fod cyswllt yn debygol o fod dros y ffôn, mewn gohebiaeth neu gyfarfodydd, a bod y galw am wasanaethau yn y Gymraeg yn debygol o gynyddu wrth i'r GTA ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael ac wrth iddo gymell mwy o'r cyhoedd i gydgyssylltu â'r GTA trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y ddarpariaeth o hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith a sgiliau iaith yn cael ei flaenoriaethu, i adlewyrchu'r cyswllt gyda'r cyhoedd a/neu arwyddocâd y dewis o iaith i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

- y bydd aelodau presennol o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn cael eu cymhell a'u cefnogi i wneud hynny, a rhoddir blaenoriaeth o ran adnoddau i staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn gyson.
- y rhoddir ystyriaeth gefnogol i bob cais gan staff am hyfforddiant a datblygiad unigol er mwyn dysgu Cymru, oddi fewn i ofynion y swyddi. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i unigolion sy'n dymuno dysgu Cymraeg, a rhoddir ystyriaeth gefnogol i geisiadau i ryddhau gweithwyr yn ystod oriau gwaith, yn amodol i ofynion y Gwasanaeth, fel y gwneir gyda phob math arall o hyfforddiant mewn swydd.
- bod rhaglenni dysgu/hyfforddi sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi unigol yn cael eu trefnu ar gyfer y rheiny y mae'n ofynnol eu bod yn siarad Cymraeg.
- bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i siarad yr iaith gyda'r aelodau hynny o staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg.
- bod yr holl staff sy'n dysgu Cymraeg yn cael mynediad i gyfeirlyfr staff y Gwasanaeth Tân sy'n siarad Cymraeg, a gaiff ei ddiweddarau gan yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Chynnal Aelodau.
- y bydd Cysill, y gwirydd sillafu Cymraeg a CysGair yn cael eu darparu ar gyfer staff sy'n paratoi dogfennau yn yr iaith Gymraeg ar brosesyddion geiriau.
- y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i hyfforddi staff sy'n siarad Cymraeg fel mentoriaid ar gyfer y rhai hynny sydd wrthi'n dysgu Cymraeg.

9. Recriwtio

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau:

Pan ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, y bydd hyn yn cael ei nodi yn yr hysbyseb am y swydd honno.

Mae "hanfodol" yn y cyd-destun hwn yn golygu bod yr angen i siarad Cymraeg yn gwbl hanfodol.

Mae “dymunol” – yn y cyd-destun hwn yn golygu y byddai’n ddymunol i benodi siaradwr Cymraeg ond nad yw hynny’n gwbl hanfodol. Mewn sefyllfa ble mae dau ymgeisydd yn gwneud cais am swydd ble mae’r gallu i siarad Cymraeg yn “ddymunol”, a bod gan y ddau ohonynt yr un cymwysterau, profiad a pherfformiad yn y cyfweiliad, ystyrir lefel y sgiliau dwyieithog yn sgil ychwanegol.

Croesewir ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg trwy hysbysebu’r holl swyddi yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy’n cael eu hargraffu yng Nghymru.

Pan fydd siaradwr di-gymraeg yn cael ei benodi i swydd ble y bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yn amod o’i gyflogaeth ei fod ef / bod hi yn dysgu Cymraeg i’r safon angenrheidiol oddi fewn i’r amserlen y cytunir arni, a fydd yn cael ei strwythuro a’i monitro’n briodol. Yn y fath achosion, bydd cefnogaeth lwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei roi.

10. Gweinyddu’r Cynllun

Mae’r Awdurdod wedi cymeradwyo’r Cynllun hwn ac mae’n ymrwymedig i sicrhau bod ei weithrediad yn llwyddiannus, trwy gymryd y camau canlynol:

- Bydd y Prif Swyddog Tân yn atebol yn gyffredinol am y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd gweithrediad y cynllun yn cael ei gyd-drefnu gan y Cyfarwyddwr Risg, y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chynnal Aelodau a Swyddog yr Iaith Gymraeg. Bydd y Cyfarwyddwyr, y Penaethiaid Corfforaethol, Penaethiaid yr Ardaloedd Rheoli a’r Penaethiaid Adran yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion y Cynllun, a byddant yn dynodi cynrychiolwyr oddi fewn i’w hadrannau a’u hardaloedd rheoli i fonitro ac adrodd am weithrediad y cynllun.
- Bydd pob aelod o staff yn derbyn copi o’r Cynllun Iaith Gymraeg **neu** grynodedb o’r Cynllun Iaith Gymraeg, sy’n amlygu ei ofynion pan fydd y Cynllun wedi cael ei gymeradwyo. Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi hefyd ar System Gwybodaeth Fusnes y Gwasanaeth Tân ac Achub ac ar ei Wefan.
- Bydd Adroddiad Blynyddol ar gydymffurfio â’r Cynllun hwn yn cael ei baratoi ar gyfer yr Awdurdod a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

10.1 Cwynion

Mae’r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw gwynion a dderbyniwyd oddi wrth y cyhoedd mewn perthynas â’r Cynllun hwn yn cael eu hymdrin yn unol â Pholisi Cwynion Cwsmeriaid y Gwasanaeth Tân ac Achub.

- Bydd pob cwyn yn cael eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod, a bydd atebion llawn yn cael eu rhoi o fewn 14 diwrnod

- Os yw aelod o'r cyhoedd yn anfodlon gyda'r ateb, gallant ofyn am i'r penderfyniad i gael ei adolygu. Dylid gwneud cais am adolygiad o fewn 4 wythnos i dderbyn yr ateb i'r cwyn.

Dylid anfon cwynion ysgrifenedig, awgrymiadau neu geisiadau am ffurflen gwynion neu gopi o'r weithdrefn Gwynion i:

Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chynnal Aelodau
Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Chynnal Aelodau
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP

Mae ymdrin â chwynion yn ddiymdroi ac yn bendant yn rhan o ymrwymiad y Gwasanaeth at ofal y cwsmer da.

10.2 Ymchwiliad yn unol ag Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Os bydd gofyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal ymchwiliad yn unol ag Adran 17 o'r Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn barod i gydweithredu'n llawn trwy roi gwybodaeth, adroddiadau, dogfennau neu eglurhad, i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd yr Awdurdod yn barod i wneud hyn ar lafar ac yn ysgrifenedig, a gall y Bwrdd gynnal trafodaethau gyda'r:

- Aelodau Etholedig
- Gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub
- Darparwyr Gwasanaeth dan Contract a'u Gweithwyr
- Unrhyw unigolyn sy'n cynorthwyo'r Awdurdod i ddarparu ei wasanaethau

11. Gweithredu, Monitro a Chydymffurfio

11.1 Monitro

Swyddog yr Iaith Gymraeg fydd yn goruchwyllo gwaith monitro'r Cynllun, a bydd yn sicrhau ei fod yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus sy'n ymestyn y rhai sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod. Bydd y Cynllun yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau a draethwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg - Atodiad 2.

Bydd yr adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- I asesu p'un ai bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd yn unol â'r Cynllun ac amserlen Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg
- I fesur argaeledd gwasanaethau'r rheng flaen yn y Gymraeg, yn cynnwys data ar:

- y nifer a'r % o swyddi'r brif dderbynfa a derbynfeydd yr Ardaloedd Rheoli a ddynodwyd bod y Gymraeg yn hanfodol, a'r nifer o'r rheiny a lenwyd gan siaradwyr y ddwy iaith (WLI2)
- y nifer a'r % o staff (siaradwyr a dysgwyr Cymraeg) sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel benodol o allu (WLI4)
- y nifer a'r % o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith (WLI4)
- I roi'r diweddaraf am weithgareddau i brif ffrydio'r iaith Gymraeg, prif ffrydio gweithgareddau, yn cynnwys camau a gymerwyd i hyrwyddo mynediad at wasanaethau'r GTA trwy gyfrwng y Gymraeg, naill ai'n gorfforaethol neu ar lefel ardal reoli

Bydd yr Awdurdod yn crynhoi ei ddarganfyddiadau ar ffurf adroddiad traethiadol bras, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol ategol.

11.2 Archwiliadau ac Arolygon a Gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio ag unrhyw archwiliadau neu geisiadau am arolygon a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd yn rhoi eu hargymhellion ar waith, ble bod hynny'n berthnasol.

11.3 Cyhoedduswydd i'r Cynllun

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i roi gwybod i'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer trwy gyfrwng y Gymraeg, a ble a phryd y medrir cael mynediad atynt.

Bydd y dulliau canlynol yn cael eu defnyddio i hysbysu'r cyhoedd am y Cynllun ac i hyrwyddo'i wasanaethau iaith Gymraeg:

- Gosod hysbysiadau yn swyddfeydd y GTA, mewn gorsafoedd tân, ar y fewnwyd a'r wefan yn hysbysebu'r cynllun
- Darparu taflen wybodaeth i'w dosbarthu i'r cyhoedd sy'n amlinellu ymrwymadau'r Awdurdod i'r iaith Gymraeg a'r gwasanaethau sydd ar gael
- Cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn ôl yr angen
- Cynnwys gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yng nghyhoeddiadau'r Awdurdod
- Sicrhau bod ei staff yn gyfarwydd â'r mesurau sy'n gynwysedig yn y Cynllun, trwy roi crynodeb o'r cynllun i bob aelod o staff, ynghyd â chanllawiau ynghylch gweithredu'r Cynllun, a thrwy roi copi o'r Cynllun ym

mhob gorsaf ac ym mhob adran, yn ogystal â'i gyhoeddi ar System Gwybodaeth Fusnes y Gwasanaeth

- Sicrhau bod asiantau a chontractwyr, sefydliadau ac unigolion sydd â buddiant, yn cael mynediad i gopiâu o'r Cynllun cymeradwy
- Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn y manau croesawu yn y Pencadlys, yn datgan bod croeso i'r cyhoedd i ymdrin â'r Gwasanaeth Tân ac Achub trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg
- Ymgymryd ag ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddol ar y cyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac asiantaethau allanol eraill, i hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog

11.4 Gweithredu

Bydd gweithrediad y Cynllun yn cael ei fesur yn erbyn dyddiadau targed. Bydd gweithrediad llawn y Cynllun yn unol â'r adnoddau sydd ar gael a blaenoriaethau o ran darparu gwasanaeth.

Bydd amserlen tair blynedd yn cael ei gosod i'w weithredu, yn cynnwys 2010-2013. Bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol i alluogi'r Awdurdod i asesu ac adolygu'r gyllideb a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu a chynnal y cynllun. Bydd adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun yn cael ei gynnal pan fydd wedi bod yn gweithredu'n llawn am dair blynedd.

Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg – mae atodiad 1 yn amlinellu'r cerrig milltir allweddol a'r amcanion sydd i'w cyflawni i gynnal gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg 2010-2013

Cyngor a Chyfarwyddyd		
Uwch Gefnogwr: Y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chynnal Aelodau		
Gweithgaredd	Person cyfrifol	Dyddiad Targed
Datblygu cyngor a chanllawiau i staff ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ac i ymdrin â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Rhag 2010
Datblygu cyngor a chanllawiau i reolwyr ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r strategaeth sgiliau ieithyddol	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Rhag 2010
Datblygu cyngor a chanllawiau i drydydd parti ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg Cefnogwr: Pennaeth Caffael	Ebrill 2011
Datblygu cyngor a chanllawiau i recriwtiaid newydd i'r Gwasanaeth yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Rhag 2010
Sefydlu "Grŵp Iaith" mewnol, yn cynnwys aelodau allweddol o staff sy'n gynrychiadol o'r Gwasanaeth yn gyffredinol. Nod y grŵp yw diwallu, trafod a phleidio materion yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Rhag 2010
Sicrhau bod y gronfa ddata o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a'i bod yn cael ei hysbysebu ar y fewnwyd	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus

Gwasanaeth y Cwsmer – Gwasanaethau'r Rheng Flaen		
Uwch Gefnogwr: Y Cyfarwyddwr Darparu Gwasanaeth		
Gweithgaredd	Person cyfrifol	Dyddiad Targed
Sicrhau delwedd ddwyieithog gadarnhaol mewn derbynfydd, yn cynnwys y Pencadlysoedd a'r Ardaloedd Rheoli	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Rhag 2010
Monitro a chofnodi'r nifer o geisiadau am Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC) a dderbynnir yn Gymraeg, trwy'r gronfa ddata CFRMIS	Pennaeth Diogelwch Rhag Tân yn y Gymuned	Medi 2010
Monitro a chofnodi'r nifer o geisiadau am Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC) a ymgwymerwyd yn Gymraeg, trwy'r gronfa ddata CFRMIS		Medi 2010
Monitro bod deunydd marchnata a gyhoeddir gan yr adran Diogelwch Rhag Tân yn y Gymuned yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog	Pennaeth Diogelwch Rhag Tân yn y Gymuned	Parhaus
Cyflwyno ymarfer cwsmer dirgel i fesur safonau gwasanaeth y cwsmer â chydymffurfiaeth â darpariaeth Iaith Gymraeg y gwasanaeth	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011
Dosbarthu atgof i'r holl staff i'w hatgoffa am y rhestr o staff sy'n medru siarad Cymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus
Sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio e-lofnod dwyieithog, yn unol â'r cynllun hwn, a monitro'n anffurfiol i brofi a ydynt yn cydymffurfio	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Medi 2010
Nifer a % y galwadau brys a ymdriniwyd yn llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg a Phennaeth y Ganolfan Reoli	Ebrill 2011
Y nifer o gwynion oddi wrth ffynonellau nad sy'n cynnwys staff na'u cynrychiolwyr am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg, a'r % o gwynion a ymdriniwyd yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011
Monitro % y galwadau ffôn a dderbyniwyd yn Gymraeg	Rheolwr Swyddfa	Ebrill 2011
Sicrhau bod 90% o'r galwadau ffôn yn cael eu hymdrin yn	Rheolwr Swyddfa	Ebrill 2011

newis iaith y sawl sy'n galw		
Sicrhau bod 90% o'r negeseuon peiriant ateb yn ddwyieithog	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Mehfin 2012
Diweddarau'r gronfa ddata o ddewis iaith budd-ddeiliaid, yn ôl y galw, a'i dosbarthu i'r holl staff.	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus

Recriwtio a Sgiliau Ieithyddol		
Uwch Gefnogwr: Y Pennaeth Adnoddau Dynol		
Gweithgaredd	Person cyfrifol	Dyddiad Targed
% yr hysbysebion recriwtio Cymraeg yn unig, Dwyieithog, Saesneg yn unig.	Pennaeth Adnoddau Dynol	Ebrill 2011
% y cyfweiliadau Cymraeg a gynigwyd ac a ymgwymerwyd	Pennaeth Adnoddau Dynol	Ebrill 2011
Nifer a % y staff sy'n meddu ar sgiliau dwyieithog	Pennaeth Adnoddau Dynol Cefnogwr: Swyddog yr Iaith Gymraeg	Meh 2010
Sicrhau bod 10% o'r staff (siaradwyr a dysgwyr Cymraeg) yn cofrestru ar raglen hyfforddi i ddysgu neu wella eu Sgiliau Iaith Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011
Sicrhau bod 70% o'r staff yn derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2013
Aseu proffil ieithyddol presennol y staff trwy gynnal archwiliad sgiliau Iaith Gymraeg ddwywaith y flwyddyn	Pennaeth Adnoddau Dynol	Meh 2010
Proses yw'r Ganolfan Datblygu Aseidiadau (ADC), a luniwyd i helpu i asesu potensial person i berfformio mewn rôl yn y dyfodol, a chaiff ei defnyddio o fewn y Gwasanaeth fel sail ar gyfer rhoi dyrchafiad. Er mwyn cydnabod y ffaith fod y mwyafrif o bobl yn teimlo'n fwy cysurus yn siarad eu	Pennaeth Datblygu / Rheolwr y Ganolfan ADC	Rhag 2010

mamiaith, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael y cyfle i ymgymryd â'r ADC trwy gyfrwng y Gymraeg.		
Adolygu strwythur y gweithlu a dadansoddi'r bylchau i ganfod y swyddi ble mae'r Gymraeg yn hanfodol a ble mae'r Gymraeg yn ddymunol	Pennaeth Adnoddau Dynol / Penaethiaid Ardal Reoli / Adran	Ebrill 2011
Diweddarau'r gronfa ddata o ddewis iaith budd-ddeiliaid. Ei dosbarthu i'r holl staff a sicrhau ei bod yn cael ei diweddarau'n gyson	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus
% a nifer y prif rolau derbynfa ble mae'r Gymraeg wedi'i nodi'n hanfodol ac a lenwyd gan staff dwyieithog	Pennaeth Adnoddau Dynol	Ebrill 2011
% a nifer y staff o fewn y gwasanaeth sy'n medru siarad Cymraeg – yn ôl adran, graddfa'r swydd a lleoliad y gweithle	Pennaeth Adnoddau Dynol	Ebrill 2011
% a nifer y swyddi ble mae'r Gymraeg yn ddymunol, a lenwyd gan staff sydd â sgiliau dwyieithog	Pennaeth Adnoddau Dynol	Ebrill 2011

Hyfforddiant		
Uwch Gefnogwr: Y Pennaeth Adnoddau Dynol		
Gweithgaredd	Person cyfrifol	Dyddiad Targed
Sicrhau bod yr holl recriwtiaid newydd sy'n ymuno â'r Gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2013
Cyflwyno dosbarthiadau sgiliau Cymraeg penodol i staff, sy'n cynnwys Mynediad, Canolradd a Hyfedredd	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011
Ymestyn y dobarthiadau Iaith Gymraeg i safleoedd daearyddol arall, yn unol â'r gofynion dysgu	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011
Monitro ac adrodd am gynnydd yr holl staff sy'n derbyn hyfforddiant IG	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus
Ymgymryd â hyfforddiant Y Wasg a'r Cyfryngau Cymraeg ar gyfer y Swyddogion perthynol	Rheolwr y Cyfryngau a Chyfathrebu	Ebrill 2011
Caffael adroddiadau cynnydd unigol ar gyfer yr holl ddysgwyr	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus

Cymraeg		
Sefydlu Gwobr Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2010

Comisiynu a Chaffael		
Uwch Gefnogwr: Y Pennaeth Cyllid		
Gweithgaredd	Person cyfrifol	Dyddiad Targed
Adolygu statws yr Iaith Gymraeg mewn prosesau comisiynu a chaffael	Pennaeth Caffael Cefnogwr: Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011
Cyngor a chanllawiau ar gydraddoldeb iaith wrth gomisiynu a chaffael	Pennaeth Caffael Cefnogwr: Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011
Ymgorffori'r Iaith Gymraeg mewn dogfennau tendro, contractau, cytundebau a thelerau	Pennaeth Caffael Cefnogwr: Swyddog yr Iaith Gymraeg	Yn unol ag amserlenni Gwerth Cymru (Caffael)
Rhaglen dreigl o adolygiadau enghreifftiol i gontractwyr trydydd parti, i fonitro a ydynt yn cydymffurfio â'r Cynllun	Pennaeth Caffael / Pennaethiaid Adran perthynol Cefnogwr: Swyddog yr Iaith Gymraeg	Ebrill 2011

Monitro Perfformiad		
Uwch Gefnogwr: Y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chynnal Aelodau		
Gweithgaredd	Person cyfrifol	Dyddiad Targed
Monitro'r ddarpariaeth o wasanaethau hyfforddi yn chwarterol	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus
Monitro'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfieithu yn chwarterol yn cynnwys cyfieithu ar y pryd	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus
Cyflwyno adroddiad perfformiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Swyddog yr Iaith Gymraeg	Gorff 2010
Adroddiadau monitro chwarterol i gael eu rhoi i Fforwm Gwella'r Gwasanaeth	Pennaeth CCChA Cefnogwr: Swyddog yr Iaith Gymraeg	Parhaus
Adroddiadau Blynyddol i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Pobl a'r Gyfundrefn	Pennaeth CCChA Cefnogwr: Swyddog yr Iaith Gymraeg	Gorff 2010